| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**BRO'R WENYNEN, GWENT 2027** |
| | **Cystadleuaeth 92 – Unawd Cerdd Dant Bl.10 a dan 19 oed** |
| | **Detholiad o 'Cysgodion' (wedi streic y glowyr), Robat Powell** |

Rhwyg oren staenia'r gorwel, - a haul oes
Ar foel hir yn diwel
Ei loes ddistaw i'r awel
A meini cwm yn wae cêl.

Daw hen ŵr yn llwyd y nos
I'r wig ar lethrau agos;
Uwch tawelwch y tyle
A grŵn y dail gwrendy e'
Hen emynau y meinwynt
O wleddoedd ei gymoedd gynt.

Gwêl o hyd y talcen glo
A llun pob cyfaill yno;
Dring o ddyfnderau angof
Y gaets i oleuni'i gof
A dwyn a fu trwy'r düwch,
Dwyn breuddwyd lwyd o'r hen lwch.

Heno lle cyrchai unwaith,
Mae rhwd ar sgerbwd y gwaith.
Gwêl ei bwll dan glo bellach,
Rhyw hen grair fel esgyrn gwrach,
A lleuad y dylluan
Yn ddedfryd fud uwch y fan.